Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch gwella'r cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol – Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru



| | | |
|---|---|---|
| **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad** | Sefydliad: | **Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP** |
| | Cyswllt: | **Jont Bulbeck, Arweinydd Tîm Mynediad, Strategaeth Wybodaeth a Chynllunio** |
| | E-bost: | **jont.bulbeck@cyfoethnaturiol.cymru/ jont.bulbeck@naturalresources.wales** |
| | Rhif ffôn: | **0300-065-3647** |

## Cwestiwn 1: Beth yw eich barn am yr egwyddorion a amlinellwyd uchod [adran 2]? Os byddech yn awgrymu eu newid, eglurwch sut a pham.

Mae ein Cynllun Galluogi a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer Hamdden Awyr Agored a Mynediad yn amlinellu nodau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y maes gwaith hwn: 'Mwy o bobl yng Nghymru yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yn fwy aml ac yn cael budd o hynny'. Er mwyn cyflawni ein nod, bydd yn bwysig gweithio mewn nifer o ffyrdd. Felly mae'r Cynllun Galluogi yn nodi'r angen i weld bod:

- Cyfleoedd mynediad yn cael eu darparu a'u gwella i ddiwallu anghenion pobl
- Gwybodaeth yn cael ei darparu a phobl yn ymwneud â gweithgareddau hamdden awyr agored
- Pobl yn deall sut mae gwneud gweithgareddau hamdden mewn modd cyfrifol
- Gweithgareddau hamdden awyr agored wedi'u cynllunio'n dda a'u rheoli mewn modd cynaliadwy; a
- Mecanweithiau cyflwyno effeithiol ar waith

Mae cyfeiriad strategol Cyfoeth Naturiol Cymru (fel yr amlinellir uchod) wedi'i alinio'n dda â gweledigaeth, diben ac amcanion y Llywodraeth fel yr amlinellir yn y papur ymgynghori.

Rydym yn cytuno bod fframwaith deddfwriaethol effeithiol yn elfen bwysig o gyflawni'r amcanion a'r deilliannau hynny. Fodd bynnag, dylai fod yn rhan o nifer o gamau gweithredu parhaus er mwyn sicrhau bod Cymru yn cael budd o weithgareddau hamdden.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y papur yn cynnwys fframwaith egwyddorion, a fel y gall deilliannau, nodau ac amcanion newidiadau posibl i ddeddfwriaeth gael eu hystyried yn erbyn y fframwaith hwn. Mae'r egwyddorion yn ganllaw defnyddiol ar gyfer datblygu a rhoi cyfeiriad i waith deddfwriaethol a gwaith cysylltiedig ar gyfer gwella cyfleoedd mynediad.

Byddai'n helpu i ddwyn ynghyd y fframwaith egwyddorion a gweledigaeth, nodau, amcanion a chamau gweithredu cyffredinol y Llywodraeth ar gyfer y maes polisi hwn. Byddai strwythur mwy eglur a chael popeth mewn un man yn helpu hefyd.

Mae'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y papur gwyrdd yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'r pwyntiau hanfodol y byddem yn disgwyl eu gweld. Yn ein barn ni, mae modd eu gwella drwy fynegiant symlach a geiriad mwy uniongyrchol e.e. fel y defnyddiwyd ar adeg cynigion deddfwriaethol y ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (*CROW*), a oedd yn cyfeirio at wella: maint, ansawdd, pa mor barhaol, eglurder, sicrwydd, a chost-effeithiolrwydd [hawliau a gweithdrefnau].
Rydym yn teimlo y dylai'r pwyntiau canlynol gael eu cynnwys hefyd:

- [Hawliau i fod] am ddim ar adeg eu defnyddio;
- Ni ddylid lleihau'n gyffredinol ar hawliau [o ganlyniad i newidiadau i'r ddeddfwriaeth].

Yn ogystal â hyn, rydym yn teimlo bod angen i weledigaeth y Llywodraeth gydnabod yn well y rhwystrau cymdeithasol i fynediad gweithgareddau hamdden, yn ogystal â'r rhai corfforol. Rydym wedi ymhelaethu ar y rhwystrau cymdeithasol, ac wedi mynd i'r afael â hwy, yn ein hymateb i Gwestiwn 2 isod.

## Cwestiwn 2: Dywedwch wrthym eich barn ar y materion a nodwyd uchod [adran 4], ac a oes heriau allweddol y credwch fod angen eu datrys?

**<u>Ymhlith yr heriau allweddol mae:</u>**

- **Integreiddio darpariaethau hamdden a deddfwriaeth newydd a deddfwriaeth sy'n datblygu, fel y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a'r Bil Amgylchedd**
- **Darparu cyfleoedd a'u rheoli mewn ffyrdd sy'n cefnogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yn fwy aml, yn enwedig yn agos at ble mae pobl yn byw**
- **Goresgyn rhwystrau cymdeithasol sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden**
- **Darpariaeth a rheolaeth barhaus o 'fannau gwyrdd' sy'n hygyrch i'r cyhoedd fel rhan o gymysgedd o gyfleoedd mynediad i weithgareddau hamdden, yn enwedig yn agos at ble mae pobl yn byw**
- **Cydbwyso'r rheolaeth o'r tir ac anghenion defnyddwyr hamdden**
- **Darparu hyblygrwydd er mwyn rheoli mewn modd cynaliadwy a/neu warchod adnoddau naturiol (e.e. cynefinoedd a rhywogaethau)**
- **Camau gweithredu parhaus ar gyfer cynyddu ymddygiad cyfrifol**

## Cwestiwn 3: Pa newidiadau, os o gwbl, y credwch fod angen eu gwneud i wella a symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi, creu, dargyfeirio neu gau hawliau tramwy cyhoeddus?

**Dyma'r Pwyntiau Allweddol mewn perthynas â newidiadau:**

- **Dylai newidiadau gadw'r cydbwysedd rhwng buddiannau cyhoeddus a phreifat heb leihau'r hawliau sy'n bodoli ar hyn o bryd**
- **Mae'r pecyn cynigion a ffurfiodd yr adrannau Hawliau Tramwy Cyhoeddus *(PROW)* o fewn y Ddeddf Dadreoleiddio yn Lloegr yn fan cychwyn defnyddiol i newidiadau yng Nghymru**
- **Gwella'r broses o ddigido gwybodaeth a phrosesau Hawliau Tramwy Cyhoeddus; hwyluso'r broses o ailddefnyddio data Hawliau Tramwy Cyhoeddus er mwyn bod o fudd i'r cyhoedd**
- **Rydym wedi rhestru nifer o faterion allweddol y dylid mynd i'r afael â hwy os bydd newidiadau'n cael eu gwneud i ddarpariaethau Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

## Cwestiwn 4: Pa newidiadau, os o gwbl, y credwch fod angen eu gwneud i wella a symleiddio'r darpariaethau sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer gwneud gwelliannau ar lawr gwlad?

**Pwyntiau Allweddol – ymhlith y newidiadau rydym yn eu hawgrymu mae:**

- **Gwelliannau i ddeddfwriaeth a gweithdrefnau er mwyn cael mynediad haws ar hyd Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
- **Diwygio darpariaethau mewn perthynas â chau Hawliau Tramor Cyhoeddus am gyfnodau byr e.e. ar gyfer rasys seiclo a digwyddiadau chwaraeon**
- **Mecanweithiau i orfodi perchnogion a rheolwyr tir i gydymffurfio'n fwy â'u cyfrifoldebau ar gyfer hawliau mynediad cyhoeddus (e.e. cydymffurfio â gofynion cynlluniau ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus o fewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol)**
- **Mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd dan fygythiad gan newidiadau arfordirol**
- **Ymestyn cwmpas Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy *(ROWIPs)***

## Cwestiwn 5: Pa newidiadau anneddfwriaethol yr hoffech eu gweld yn y cyfamser, y credwch y byddent yn helpu i wella'r rhwydwaith hawliau tramwy yng Nghymru a lleihau'r baich ar awdurdodau lleol?

**Pwyntiau Allweddol – ymhlith y newidiadau yr hoffem eu gweld mae:**

- **Adnoddau parhaus i wella rhwydweithiau mynediad a chyfleoedd sy'n diwallu angen pobl am weithgareddau hamdden i'r eithaf**
- **Gwell gwybodaeth ac addysg i berchnogion a rheolwyr tir am eu cyfrifoldebau mynediad cyhoeddus**
- **Awdurdodau lleol i ddatblygu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy diwygiedig a'u rhoi ar waith**
- **Gwelliant i'r ffordd y caiff is-ffyrdd eu cofnodi a'u rheoli fel rhan o rwydweithiau hamdden**

## Cwestiwn 6: Sut y dylid ailddiffinio nifer, rôl, aelodaeth a diben fforymau mynediad lleol?

Mae ein hymateb i'r cwestiwn hwn yn defnyddio'r wybodaeth yn yr 'Adroddiad ar yr Adolygiad o Arferion Gweithio Fforymau Mynediad Lleol (*LAF*s)' a adroddodd ar ganlyniadau arolwg holiadur i bob Fforwm Mynediad Lleol rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2013. Ymatebodd 15 o Fforymau Mynediad Lleol. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd yn defnyddio'r cofnodion sydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'n rôl o gefnogi Fforymau Mynediad Lleol.

**Dyma ein pwyntiau allweddol:**

- **Dylai cwmpas a rôl Fforymau Mynediad Lleol mewn deddfwriaeth a chanllawiau fod wedi'u halinio ag egwyddorion canllaw Llywodraeth Cymru**
- **Dylai Fforymau Mynediad Lleol fynd i'r afael â holl fuddiannau'r cyhoedd o ran cael mynediad gweithgareddau hamdden awyr agored i fannau gwyrdd a glas o fewn eu hardaloedd.**
- **Lle bo'n berthnasol i'w diben cyffredinol, dylent hefyd allu ymwneud â chyrff eraill a mynd i'r afael â'r holl weithgareddau hamdden awyr agored o fewn eu hardal**
- **Dylai'r gofynion presennol o ran nifer a maint Fforymau Mynediad Lleol barhau.**

- **Dylai'r rheoliadau ganiatáu mwy o hyblygrwydd wrth benodi aelodau er mwyn sicrhau mwy o barhad yng ngwaith Fforymau Mynediad Lleol.**
- **Mewn llawer o achosion, mae angen i Fforymau Mynediad Lleol sicrhau cydbwysedd o ran y gynrychiolaeth gan fuddiannau deiliaid gwahanol a phoblogaeth leol yr ardal**

## Cwestiwn 7: Sut y dylid cysoni'r hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â chŵn yng nghefn gwlad i ddarparu rhagor o sicrwydd dros yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol, mewn ffordd sy'n gwneud y broses i gyfathrebu negeseuon ynghylch sut i ofalu am am gŵn a'u trin yn gyfrifol yn fwy syml?

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi rhai o'r meysydd allweddol lle mae anghytuno ar hyn o bryd ynglŷn â'r hawliau mynediad cyfreithiol sydd gan berchnogion cŵn. Rydym yn cydnabod y problemau y gall cŵn eu hachosi i reolwyr tir ac eraill ar adegau.

**Dyma ein pwyntiau allweddol mewn perthynas â hawliau a chyfrifoldebau ynghylch cŵn yng nghefn gwlad:**

- **Mae perchen ar gi mewn modd cyfrifol yn bwysig er mwyn effeithio'n gadarnhaol ar gyfranogiad pobl mewn gweithgareddau hamdden**
- **Dylid defnyddio'r term 'rheolaeth effeithiol' yn yr holl ddeddfwriaeth berthnasol**
- **Mae angen fframwaith mwy hyblyg er mwyn cyfyngu ar fynediad heb dennyn i gŵn e.e. at ddibenion rheoli tir a chadwraeth natur**
- **Dylid darparu mwy o wybodaeth am y lleoedd y gall pobl fynd â'u cŵn a'u gadael yn rhydd**
- **Dylai fod dull Cymru-gyfan o ddarparu a hysbysu'r cyhoedd am y biniau 'dau ddefnydd' i wastraff cŵn**
- **Mae angen darparu gwybodaeth am sut i drin cŵn mewn modd cyfrifol, a hyrwyddo'r mater yn gyson, gan gynnwys arwyddion safonol yn ymwneud â rheoli cŵn, fel y bydd perchnogion yn rheoli eu cŵn mewn modd mwy cyfrifol**

## Cwestiwn 8: Sut y byddai modd newid y ddeddfwriaeth gyfredol i'w gwneud yn haws caniatáu amrywiaeth ehangach o weithgareddau ar lwybrau presennol a newydd?

**<u>Pwyntiau allweddol:</u>**

**Mae nifer o opsiynau posibl ar gyfer newid deddfwriaeth gyfredol, gan gynnwys**

- **Ymestyn y defnydd o Hawliau Tramwy Cyhoeddus i amrywiaeth fwy eang o ddefnyddwyr;**
- **Diwygio Atodiad 2 y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy *(CROW)* i ganiatáu mwy o weithgareddau ar dir y ceir mynediad iddo ar hyn o bryd drwy'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy**
- **Diwygio Atodiad 2 y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ynghyd ag ymestyn y tir y mae'r ddeddf hon yn gymwys iddo**
- **Diwygio deddfwriaeth llwybrau seiclo, gan gynnwys cofnodi llwybrau seiclo ar fapiau swyddogol**
- **Byddai angen asesu ymhellach y buddion a'r effeithiau yn sgil newidiadau o'r fath**

## Cwestiwn 9: Sut y gallai deddfwriaeth daro cydbwysedd gwell rhwng y gofynion amrywiol ar ddefnyddwyr cerbydau modur, tirfeddianwyr a'r amgylchedd naturiol?

**<u>Pwyntiau allweddol:</u>**

- **Mae gweithgareddau hamdden cerbydau modur anghyfreithlon wedi'u nodi fel problem sy'n cynyddu ar yr ystâd a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru**
- **Bydd gwneud hawliau yn fwy eglur, yn enwedig Ffyrdd Eraill â Mynediad Cyhoeddus/Ffyrdd di-ddosbarth heb wyneb *(ORPAs/UUCRs)* yn helpu i'w wneud yn glir ble gall defnyddwyr hamdden cerbydau modur fynd yn gyfreithlon, yn ogystal â helpu i orfodi'r gyfraith ar ddefnydd anghyfreithlon o gerbydau modur**
- **Mae angen darparu gwybodaeth ac addysg am hawliau a chyfrifoldebau er mwyn cefnogi'r broses o orfodi cyfreithiau yn erbyn defnyddiau anghyfreithlon**
- **Gall gwell rheolaeth o ffyrdd ddi-ddosbarth ochr yn ochr â Hawliau Tramwy Cyhoeddus eraill fod o fudd i ystod eang o ddefnyddwyr hamdden, nid dim ond modurwyr**

## Cwestiwn 10: Sut y dylai'r angen am gyfleoedd mynediad newydd neu well gael ei adnabod, ei gynllunio a'i ddiwallu?

**Pwyntiau Allweddol:**

**Ar hyn o bryd, mae'r dull o gynllunio cyfleoedd mynediad newydd neu rai gwell ar gyfer yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus lleol presennol a mynediad cyhoeddus cysylltiedig yn cael ei gyflawni gan yr awdurdodau lleol drwy eu dyletswyddau ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy sydd wedi'u cynnwys o fewn y ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn llunio cyngor i Lywodraeth Cymru ar adolygu canllawiau statudol y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Bydd y cyngor yn nodi ein barn ar sut y dylai'r dyletswyddau hynny gael eu rhoi ar waith er mwyn adlewyrchu ac integreiddio gofynion newydd fel y Ddeddf Teithio Llesol, y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a chyflwyno Datganiadau Cyfoeth Naturiol o dan y cynigion ar gyfer y Bil Amgylchedd. Dyma elfennau allweddol y canllawiau arfaethedig ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy:**

- **Asesu angen y cyhoedd i gael mynediad**
- **Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi yn y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy i fynediad arall sydd ar gael i'r cyhoedd (fel mannau gwyrdd a llwybrau teithio llesol) – ynghyd â hawliau tramwydd lleol**
- **Sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i fwynhau'r awyr agored fel lle i wneud gweithgareddau hamdden**
- **Rheolaeth well o *rwydweithiau* cyfleoedd mynediad**
- **Datganiadau Gweithredu yn amlinellu beth a sut bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno**
- **Cynllunio a blaenoriaethu gofodol (e.e. wedi'i gefnogi gan arf cynllunio Da i Bobl Cyfoeth Naturiol Cymru a'r pecyn Mannau Gwyrdd)**

## Cwestiwn 11: Beth yw eich barn ar y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â chreu hawl gweithgareddau hamdden cyfrifol i'r holl dir yng Nghymru?

**Pwyntiau Allweddol:**

- **Rydym yn cydnabod y buddion posibl a nodir yn y Papur Gwyrdd a allai ddeillio o'r broses o gyflwyno hawliau a chyfrifoldebau newydd**
- **Byddai angen i gyfleoedd gael eu darparu a'u rheoli mewn ffordd hyblyg, gyfannol ac wedi'i chynllunio**
- **Byddai dal angen rhwydwaith eang, sefydlog o lwybrau mynediad cyhoeddus sydd wedi'u rheoli'n dda ac wedi'u harwyddo, a bydd angen mesurau deddfwriaethol digonol i ddarparu ar gyfer hyn**
- **Byddai angen mecanweithiau ac adnoddau addas i sefydlu a gosod fframwaith mor ddeddfwriaethol gan gynnwys ar gyfer:**
  - **Ei roi ar waith e.e. gan awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol, asiantaethau (fel Cyfoeth Naturiol Cymru) a'r system gyfiawnder**
  - **Rheolau yng nghyd-destun defnydd masnachol**
  - **Sicrhau bod bywyd gwyllt ac adnoddau naturiol yn cael eu gwarchod**
  - **Anghenion rheoli tir**
  - **Cod statudol a hyrwyddo'r cod hwnnw**
  - **Mecanwaith cynllunio diwygiedig ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored [i gymryd lle Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy]**

- **Byddai angen adnoddau parhaus ar hawliau a chyfrifoldebau newydd er mwyn rheoli'r hawliau newydd ar gyfer cyfleoedd mynediad a ddarperir er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pobl i'r eithaf, gan gynnwys cyfleoedd i gael mynediad cyhoeddus croesawgar, agored sydd ar gael yn agos at gartrefi pobl**
- **Bydd mynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol a diwylliannol sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, gan wella gwybodaeth, dulliau hyrwyddo ac ymwneud â phobl, yn parhau'n flaenoriaeth waeth beth yw'r newidiadau i ddeddfwriaeth mynediad**

## Cwestiwn 12: Pa ddull rydych yn ei argymell i wella cyfleoedd ar gyfer mynediad cyfrifol ar gyfer gweithgareddau hamdden ar ddyfroedd mewndirol?

**Pwyntiau Allweddol**

**Rydym yn cytuno â dadansoddiad y papur ymgynghori o'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol sy'n ymdrin â mynediad gweithgareddau hamdden awyr agored i ddyfroedd mewndirol a bod tensiynau sylweddol rhwng rhanddeiliaid ar adegau. Bydd angen gwella'r sefyllfa er mwyn cyflawni'r nodau a'r buddion cysylltiedig mae Llywodraeth Cymru yn anelu atynt o ran yr agwedd hon ar weithgareddau hamdden awyr agored. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno opsiynau ar gyfer newid, bydd angen gwneud gwaith pellach i ystyried y buddion a'r effeithiau ar y gwahanol ddefnyddwyr hamdden, ar gyfer rheoli adnoddau naturiol, ac ar berchnogion tir / glannau môr a deiliaid hawliau eraill.**

**Cwestiwn 13: Pa ddull rydych yn ei argymell i wella cyfleoedd ar gyfer mynediad cyfrifol ar gyfer gweithgareddau hamdden ar yr arfordir ac yn yr amgylchedd morol?**

**Pwyntiau Allweddol:**

- **Dylai'r Llywodraeth ystyried yr angen am ddarpariaeth statudol ar gyfer cael mynediad i draethau a blaendraethau sy'n gyson â newidiadau eraill i'r ddeddfwriaeth**
- **Mae potensial i ymestyn y dulliau a reolir, fel sydd i'w gweld yn Sir Benfro, i ardaloedd eraill**

**Cwestiwn 14: Beth fyddai manteision ac anfanteision cod ymddygiad statudol cynhwysfawr ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored yng Nghymru?**

**Pwyntiau Allweddol:**

- **Mae buddion cod statudol yn dibynnu ar y fframwaith hawliau statudol**
- **Mae cod statudol yn diffinio ac yn ategu hawliau a chyfrifoldebau newydd a ddatblygir o fewn dull tebyg i fath Diwygio Tir**
- **Y ffordd orau o greu cod statudol fyddai drwy ddull partneriaeth teg a chydsyniol**
- **Byddai'r broses o orfodi'r cod mynediad awyr agored statudol yn dibynnu ar y system gyfiawnder sy'n bodoli ar hyn o bryd**
- **Mae ar urhyw god angen rhaglen ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth o hawliau ac ymddygiad cyfrifol**
- **Byddai angen adnoddau sylweddol i sefydlu a hyrwyddo cod statudol yng Nghymru**
- **Bydd yn cymryd amser i feithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o god statudol yng Nghymru a hefyd ymhlith pobl sy'n ymweld â Chymru**
- **Dylid ystyried sut i wneud y ddyletswydd i hyrwyddo codau ymddygiad yn fwy eglur mewn deddfau a/neu sut i wneud y gweithrediad hwn yn fwy o flaenoriaeth i gyrff cyhoeddus**

**Bydd manteision ac anfanteision cod statudol cynhwysfawr yn dibynnu ar y dyletswyddau statudol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu diffinio o fewn cod statudol. Mae gwahaniaeth clir rhwng bod â dyletswydd statudol i hyrwyddo cod ymddygiad a chod ymddygiad sy'n diffinio hawl mynediad statudol. Mae angen ystyried rhinweddau'r ddau ddull hyn ar wahân gan nad ydynt yn dibynnu ar ei gilydd.**

Sylwadau eraill fan hyn: